OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 988 (Cy. 159)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Medi 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *13 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Hydref 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 53(11) ac adran 105(2)(a) a (2)(b) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 9 Hydref 2023.

### Diwygiadau i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

**2.** Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 2—

(a) yn y lle priodol mewnosoder "ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;";

(b) yn y diffiniad o "aelod annibynnol"—

(i) yn is-baragraff (b), ar ôl "swyddog" hepgorer "neu";

(ii) yn is-baragraff (c), ar ôl "cymuned" mewnosoder ", neu";

(iii) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder "(ch) pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, yn berson sy'n aelod, yn aelod cyfetholedig nac yn swyddog o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw nac o'i awdurdodau cyfansoddol, gan gynnwys

(**1**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2000 p. 22. Fe'i diwygiwyd gan O.S. 2022/372 (Cy. 92); mewnosododd rheoliad 3 gyd-bwyllgorau corfforedig yn y diffiniad o "relevant authority" yn adran 49 o Ddeddf 2000 a diwygiodd adran 53 o'r Ddeddf honno. Mae adran 49 wedi ei chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 2000 ac mae'n ymwneud ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

(**3**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/2929 (Cy. 214), O.S. 2005/3302 (Cy. 256), O.S. 2006/362 (Cy. 48), O.S. 2006/1849 (Cy. 192), O.S. 2007/951 (Cy. 82), O.S. 2013/3005 (Cy. 297), O.S. 2014/3061, O.S. 2016/85 (Cy. 39), O.S. 2021/356 (Cy. 107), O.S. 2022/533 (Cy. 125).

Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, nac yn briod nac yn bartner sifil i'r aelod, yr aelod cyfetholedig neu'r swyddog hwnnw;";

(c) yn y diffiniad o "aelod panel lleyg"—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "cymuned," hepgorer "neu";

(ii) yn is-baragraff (b), ar ôl "cymuned" hepgorer ";" a mewnosoder ", neu";

(iii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig,

(i) sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw, neu

(ii) sy'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol nad yw'n aelod cymwys o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw;";

(d) yn y diffiniad o "awdurdod perthnasol"—

(i) yn is-baragraff (c) hepgorer "ac";

(ii) yn is-baragraff (ch), ar ôl "achub" hepgorer ";" a mewnosoder ", a";

(iii) ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder "(d) cyd-bwyllgor corfforedig;".

**4.** Yn rheoliad 4—

(a) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, aelodau o awdurdodau cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw ond nid aelodau cyfetholedig o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw heblaw'r rhai a gyfetholwyd ar gyfer aelodaeth o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw,";

(b) ym mharagraff (c), ar ôl "cymunedol" mewnosoder "ac eithrio pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig".

**5.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "Rhaid" a mewnosoder "Yn ddarostyngedig i (1A), rhaid";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan fo'r awdurdod perthnasol y cyfeirir ato yn rheoliad 6(1) yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i berson sydd wedi bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ond nad yw'n aelod mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.";

(c) ym mharagraff (2), ar ôl "nad yw'r person hwnnw wedi bod yn aelod ohono" mewnosoder ", ond, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, ni chaiff y person fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod cyfansoddol nac Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw".

**6.** Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "Rhaid" a mewnosoder "Yn ddarostyngedig i (1A), rhaid";

(ii) yn y testun Cymraeg, ar ôl "nad yw'n" yn lle "aelod" rhodder "swyddog";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan fo'r awdurdod perthnasol y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1) yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i berson sydd wedi bod yn swyddog o gyd-bwyllgor corfforedig neu'n

swyddog o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ond nad yw'n swyddog ohono mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.";

(c) ym mharagraff (2), yn lle ", ond nad yw'n aelod mwyach" rhodder "neu, os yw'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, yn swyddog o'i awdurdodau cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, ond nad yw'n swyddog mwyach".

**7.** Yn rheoliad 8, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i gadeirydd awdurdod o'r fath beidio â bod yn aelod o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.".

**8.** Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl "aelod o'r awdurdod hwnnw" mewnosoder

", neu aelod o bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw,";

(ii) ar ôl "ar gyfer yr awdurdod" mewnosoder "neu'r awdurdod cyfansoddol";

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "awdurdod lleol o dan sylw" mewnosoder ", neu, yn achos cyd-bwyllgor corfforedig, o awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw,".

**9.** Yn rheoliad 19, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw sy'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol yr awdurdod hwnnw beidio â bod yn hwy na'r cyfnod tan y bydd aelodaeth yr aelod hwnnw o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol yn dod i ben, a bydd aelodaeth aelod o'r fath o'r pwyllgor safonau hwnnw yn dod i ben os yw aelodaeth yr aelod hwnnw o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol hwnnw yn dod i ben.".

**10.** Yn rheoliad 21(1), ar ôl "aelod o'r awdurdod hwnnw,", mewnosoder "neu, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw,".

**11.** Yn rheoliad 23(1), yn lle "neu'r awdurdodau perthnasol o dan sylw" rhodder "na'r awdurdodau perthnasol o dan sylw neu, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, nad yw'n aelod o'i awdurdodau lleol cyfansoddol nac o'i Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol".

**12.** Yn rheoliad 25—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "pwyllgor safonau" mewnosoder ", ac eithrio pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig,";

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "pwyllgor safonau" mewnosoder ", ac eithrio pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig,";

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Rhaid i bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig gynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob cyfnod o 12 mis ar ôl i'r pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw gael ei sefydlu.".

**13.** Yn rheoliad 26, mewnosoder—

"(10) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig.".

**14.** Yn rheoliad 27, mewnosoder—

"(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig.".

**15.** Yn rheoliad 28, mewnosoder—

"(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig.".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Medi 2023

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu ar gyfer maint, cyfansoddiad, a thrafodion pwyllgorau safonau cyd-bwyllgorau corfforedig a chywiro gwallau yn y testun Cymraeg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau a gorchmynion cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar adeg gwneud y rheoliadau sefydlu hynny a dibynnir arno at ddiben y Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.